# Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-06-07(p8)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 14 Mawrth 2007
### Lleoliad: Ystafell Pwyllgor 2, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Adolygiad Annibynnol ar Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal

#### Pwrpas

1. Mae’r papur hwn sydd i’w nodi yn rhoi gwybodaeth am sefydlu’r Adolygiad Annibynnol ar Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal.

#### Cefndir

2. Cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y cyfarfod llawn ar 7 Tachwedd 2006 y dylid cynnal adolygiad annibynnol ar Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal yn dilyn cynnig Jonathan Morgan i’r perwyl hwnnw.

3. Lluniwyd cylch gorchwyl yr adolygiad wedyn i adlewyrchu geiriad y Cynnig yn y Cynulliad a chafodd ei ddatblygu ymhellach ar ?mgynghori ?hymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chydffederasiwn y GIG ac arweinwyr y pleidiau ar y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cylch Gorchwyl yr adolygiad

4. Mae’r cylch gorchwyl cytunedig bellach fel a ganlyn:

Pwrpas yr adolygiad: adolygu effeithiolrwydd polis? Llywodraeth y Cynulliad sy’n ymwneud ag oedi wrth drosglwyddo gofal trwy asesu arferion yn y GIG a’r awdurdodau lleol, a gwneud argymhellion, trwy:

- ystyried datblygu cyllidebau ar y cyd a ffurfiau eraill ar bartneriaeth ar gyfer gofal iechyd a’r gwasanaethau cymdeithasol i helpu i leihau oedi a gwella’r cydgysylltiad rhwng y GIG, yr awdurdodau lleol a phartneriaid eraill; ac a ddylai Llywodraeth y Cynulliad eu gorfodi i ddefnyddio trefniadau o’r fath;
- ystyried beth fyddai’n set ddata briodol a system ar gyfer casglu data ac adrodd, sy’n adlewyrchu’n ddigonol gymhlethdod oedi wrth drosglwyddo gofal ac yn cefnogi cydberchnogaeth a chyd-ymateb i’r materion dan sylw;
- yng nghyd-destun oedi wrth drosglwyddo, ystyried pa mor ddigonol yw’r lleoedd o fewn y system, gan gynnwys:-

- ffyrdd o ddefnyddio gwelyau ysbyty ac?, a gwasanaethau cymunedol a gofal cymdeithasol yn fwy effeithiol
- ac a oes digon o leoedd gofal, pecynnau gofal cartref a staff hyfforddedig priodol ar gael;

- ystyried sut y gellir hyrwyddo lles cleifion sy’n barod i’w rhyddhau gan gynnwys effeithiolrwydd trefniadau adolygu rhyddhau o’r ysbyty; ac
- ystyried goblygiadau dewis

Mae angen cwblhau’r adolygiad cyn pen 6 mis

## Yr Amserlen ar gyfer yr Adolygiad

5. Bydd yr adolygiad hwn yn golygu cryn dipyn o waith. Fe’m cynghorir, oherwydd y gost bosibl, y bydd yn ofynnol i ni wneud y gwaith caffael trwy broses Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. A bwrw bod angen i ni fynd trwy’r broses lawn, byddai’r amserlen fras fel y ganlyn:

Hysbysebu yn y Cyfnodolyn Ewropeaidd - Chwefror
Datblygu manylebau manwl – erbyn dechrau mis Mawrth
Derbyn Datganiadau o Ddiddordeb – diwedd Mawrth
Dosbarthu Gwahoddiadau i Dendro - Ebrill
Dychwelyd Tendrau – dechrau Mai
Dyfarnu’r Contract - diwedd Mai
Contract yn dechrau - dechrau Mehefin.

6. Wedyn, gallai’r adolygiad ei hun gymryd hyd at chwe mis. Fel y soniwyd yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 7 Chwefror, efallai y gallwn fyrhau’r cyfnod cyn dechrau’r contract os oes modd i ni ddefnyddio fframwaith caffael yr Adran Iechyd at y diben hwn. Mae hyn yn edrych yn llai a llai tebygol, fodd bynnag.

## Goblygiadau Ariannol

7. Pennir cost cyflawni’r adolygiad trwy’r broses gaffael. Ni chynhwyswyd darpariaeth benodol ar ei gyfer hyn yng nghyllideb y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer 2007-8 a bydd angen cwrdd ?146;r costau trwy newid y blaenoriaethau o fewn Prif Grwp Gwariant Iechyd a’r Gwasanaethau Cymdeithasol.

## Camau Gweithredu

8. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur hwn.

Dr Brian Gibbons
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Ionawr 2007
Cyswllt: Jonathan Isaac, Polisi Pobl Hyn a Gofal Hirdymor, ff?29 2080 1089